Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfarfod Bwrdd
9fed Gorffennaf 2013

Teitl y Papur	**Diweddariad ar P ramorum**
Cyfeirnod y Papur:	**Papur B (O) 20.13**
Paratowyd y Papur gan:	Noddwr: Trefor Owen Awdur: Peter Garson

Pwrpas y Papur:	Mae'r papur hwn a'r atodiad yn rhoi gwybodaeth gefndir am P ramorum cyn diweddariad pellach a chyflwyniad yng nghyfarfod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ar 9fed Gorffennaf 2013.
Argymhelliad:	Nodi effaith P ramorum mewn coedwigoedd llarwydd yng Nghymru, y camau a gymerwyd i reoli ei ledaeniad a'r camau nesaf a gymerir.
Penderfyniad sy'n Ofynnol:	Amh

Effaith: Dylid nodi – mae'n bosib nad yw pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Mae P ramorum yn debygol o olygu colli coed llarwydd o Gymru yn y tymor canolig. Llarwydd yw oddeutu 8% o'r coetiroedd a'r coedwigoedd yng Nghymru ac maent yn darparu elfen bwysig o amrywiaeth o ran rhywogaethau. Mae P ramorum hefyd yn fygythiad i goed llus, elfen bwysig o gynefinoedd lled-naturiol yng Nghymru. Yn ogystal ag effaith uniongyrchol P ramorum, gellid gweld effeithiau anuniongyrchol, tymor byr o ganlyniad i dorri a chlirio coed llarwydd wedi'u heintio, ar raddfa fawr, yn nhermau'r tirlun ac ansawdd dŵr. **Effaith ar yr Economi**: Gallai P ramorum gael effaith niweidiol ar fusnesau cysylltiedig â hamdden a thwristiaeth mewn ardaloedd coediog lle ceir ardaloedd sylweddol o goed llarwydd. Mae gan yr haint ar goed llarwydd oblygiadau o ran adnoddau a chostau ar gyfer perchnogion a rheolwyr coetiroedd a phroseswyr pren. **Effaith ar y Gymuned**: Mewn ardaloedd lle ceir llawer iawn o goed llarwydd gerllaw cymunedau, gall P ramorum a'r clirio cysylltiedig gael effaith weledol sylweddol ar gymunedau lleol ac ar ymwelwyr.

	Effaith ar Wybodaeth: Mae P ramorum yn bathogen diweddar mewn coed llarwydd ac felly nid yw wedi ei ddeall yn llwyr. Mae angen mwy o ymchwil i gynorthwyo rheolwyr coetiroedd i reoli'r pathogen hwn.

Mater dan sylw

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ar reoli P ramorum yng Nghymru, drwy gyfeirio at yr atodiad sydd ynghlwm a'r cyflwyniad sydd i'w roi yng nghyfarfod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ar 9fed Gorffennaf 2013.

Crynodeb

2. P ramorum yw'r pathogen iechyd planhigion mwyaf difrifol sy'n effeithio ar goetiroedd yng Nghymru. Mae strategaethau i'w reoli wedi datblygu i adlewyrchu cynnydd y clefyd. Mae'r cyflymu diweddar o ran lledaeniad yr haint yn golygu ei bod yn ofynnol adolygu'r strategaeth gyfredol eto. Mae gan Lywodraeth Cymru bellach gyfrifoldeb polisi dros iechyd coed, maent wedi eu hysbysu am y sefyllfa gyfredol ac yn cymryd camau i adolygu'r dull gweithredu presennol mewn cydweithrediad â Cyfoeth Naturiol Cymru, asiantaethau eraill a rhanddeiliaid.

Cefndir

3. Caiff y cefndir ei ddisgrifio yn y papur sydd ynghlwm, (P ramorum, Crynodeb Cyfoeth Naturiol Cymru hyd 19eg Mehefin 2013)

Y Camau Nesaf

4. Nodir y camau nesaf yn y papur sydd ynghlwm, (P ramorum, Crynodeb Cyfoeth Naturiol Cymru hyd 19eg Mehefin 2013)

Risgiau

5. Rhoddwyd ystyriaeth i'r risgiau a'r materion canlynol gan Cyfoeth Naturiol Cymru wrth ystyried y dull o reoli P ramorum a'r camau nesaf.
   - Cydymffurfio â'r gyfraith
   - Effaith amgylcheddol
   - Effaith ar gymdeithas
   - Iechyd a Diogelwch
   - Cost uniongyrchol i Cyfoeth Naturiol Cymru
   - Effaith economaidd ehangach
   - Gallu'r sector i gyflawni
   - Statws Cynaliadwyedd /Ardystio Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru
   - Risgiau o ran enw da

Goblygiadau Ariannol

6. Mae gan P ramorum oblygiadau ariannol sylweddol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru a pherchnogion coetiroedd preifat. Nodir costau camau nesaf Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2013/14 yn y papur sydd ynghlwm (P ramorum, Crynodeb Cyfoeth Naturiol hyd 19eg Mehefin 2013)

Cyfathrebu

20. Ers y papur Crynodeb, mae Llywodraeth Cymru wedi ei briffio, ac mae'r cynllun cyfathrebu allanol wedi ei ddiweddaru. Cyhoeddwyd Datganiad i'r Wasg gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar 24ain Mehefin 2013 ac mae cyfweliadau ar y cyfryngau wedi bod yn digwydd o 25ain Mehefin 2013. Nodir y sefyllfa ddiweddaraf yng nghyfarfod y Bwrdd ar 9fed Gorffennaf 2013.

Asesiad o'r effaith ar Gydraddoldeb (EqIA)

8. Nid yw P ramorum yn fater sy'n effeithio ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig. O'r herwydd, nid ystyrir fod angen EqIA.

Mynegai'r Atodiad

Papur: P ramorum, Crynodeb Cyfoeth Naturiol Cymru hyd 19eg Mehefin 2013